**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 6 Hydref 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | W Evans |
| M H Jones | M B Lewis | R D Lewis |
| C Richards | P B Smith | D W W Thomas |
| T M White | L J Tyler-Lloyd | |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd M Langstone

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Andrew Ferguson | Arweinydd Tîm Ardal |
| Chris Healey | Arweinydd Tîm Ardal |
| Liam Jones | Arweinydd Tîm Ardal |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

**4 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau

**5 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 3 Medi 2020 fel cofnod cywir.

**6 Hawliau Tramwy Cyhoeddus - Cais am Orchymyn Addasu i wella rhan o lwybr troed rhif 18 er mwyn creu Cilffordd Gyfyngedig- Cymuned Llanilltud Gwyr.**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad a oedd yn gofyn am ystyriaeth ynghylch a ddylid derbyn neu wrthod cais a wnaed i'r Awdurdod am Orchymyn

Addasu i uwchraddio rhan o lwybr troed cyhoeddus rhif 18 yn glirffordd gyfyngedig a’i gofnodi felly ar Fap Diffiniol Hawliau Tramwy Cyhoeddus y cyngor.

Amlinellwyd y manylion cefndir a'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r cais yn fanwl yn yr adroddiad, yn ogystal â'r prif faterion cyfreithiol i'r aelodau eu hystyried wrth ymdrin â'r cais.

Manylwyd ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais yn yr adroddiad.

Amlinellwyd nad ystyriwyd bod y dystiolaeth yn ddigonol i fodloni'r profion statudol a nodir yn yr adroddiad ac i wneud Gorchymyn Addasu i gofnodi clirffordd gyfyngedig ar y Map Diffiniol a'r Datganiad.

Gwnaed datganiad gan Hilary Davidson, ar ran y tirfeddiannwr Mr Beynon, i gefnogi argymhelliad y swyddog i wrthod y cais. Amlinellodd gefndir a hanes y materion a oedd yn ymwneud â'r cais a chyfeiriodd at ddigwyddiadau y bu'n rhaid i berchennog y tir ddelio â hwy dros flynyddoedd lawer a oedd yn ymwneud â defnyddio'r llwybr troed.

**Penderfynwyd** gwrthod y cais a'r Gorchymyn Addasu i uwchraddio statws rhan o lwybr cyhoeddus rhif 18.

## 7 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

Dim.

## 8 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#) (Sylwer: Dosbarthwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan y cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod)

1) **Cymeradwyo'r** ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a nodir isod.

**#(Eitem 1) – Cais Cynllunio 2018/2634/FUL - Datblygiad preswyl (31 o anheddau) gydag isadeiledd ffyrdd, darpariaeth ddraenio a gwaith tirlunio cysylltiedig ar dir oddi ar Higher Lane, Langland, Abertawe.**

Gohiriwyd yr eitem yn y cyfarfod blaenorol er mwyn cynnal ymweliad safle, a gynhaliwyd ar y bore cyn y cyfarfod.

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd Fiona Power (gwrthwynebydd) y pwyllgor a siaradodd yn erbyn y cynigion.

Anerchodd y Cynghorydd M A Langstone (Aelod Lleol) y pwyllgor a siaradodd yn erbyn y datblygiad arfaethedig.

Anerchodd Jason Evans (asiant) y pwyllgor a siaradodd o blaid y cynigion.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Tudalen 158 - Rhif yr amod yn anghywir. Ei newid i ddilyn y dilyniant.

Derbyniwyd 43 o wrthwynebiadau pellach i'r cais.

2 gyflwyniad gwrthwynebu pellach gan breswylydd lleol cyfagos a hefyd 2 gyflwyniad gwrthwynebu gan aelod lleol.

E-bost pellach, dogfen friffio gyflwyno a chynllunio AETG ar gyfer Aelodau a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.

Newidiwyd y rheswm dros amod 5 i ddarllen:
Rheswm: Er mwyn amddiffyn cyfanrwydd y system rheoli dŵr wyneb a ddewiswyd rhag ardaloedd anhydraidd ychwanegol nad yw system SW wedi'i dylunio i ddarparu ar eu cyfer ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar amwynder preswyl deiliaid eiddo preswyl cyfagos.

Cymeradwywyd y cais yn amodol ar gytundeb A106.

Sylwer: Cymeradwywyd y cais yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth Cymru nad ydynt yn bwriadu galw'r cais i mewn, a thrwy hynny gael gwared ar eu Hysbysiad Gohirio, ac yn amodol ar yr adran amodau a amlinellwyd uchod.

**#(Eitem 2) – Cais Cynllunio 2020/1482/FUL - Newid defnydd o ddwy fflat breswyl i HMO ar gyfer hyd at 6 o bobl yn 151 Hanover Street, Abertawe.**

Adroddwyd am sylw hwyr gan gymydog.

**(Eitem 3) - Cais cynllunio 2020/1443/106 -Addasiad i gytundeb Adran 106, dyddiedig 5 Mawrth 2018 yn gysylltiedig â chais 2017/2572/FUL dyddiedig 7 Mawrth 2018, i ganiatáu ar gyfer defnydd preswyl cyfyngedig o 690 Llangyfelach Road ar y cyd â 688 Llangyfelach Road yn hen adeilad y Pines Country Club , 692 Llangyfelach Road, Treboeth, Abertawe.**

Cytundeb adran 106 i'w addasu yn unol â'r argymhelliad.

## 9 Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio.

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn amlinellu bod Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i bandemig COVID-19, wedi cadarnhau nad oedd angen yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio ar gyfer

2020 ar hyn o bryd ond nododd y byddai angen cyflwyno adroddiad dwy flynedd yn 2021.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.30 pm

**Cadeirydd**